



Cyfeirnod: 606A2016

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2016

Adroddiad ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Polisi Addasiadau Rhesymol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru (Allanol)

1 Yn unol â Rheoliad 8 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud trefniadau ar gyfer asesu'r effaith y mae eu polisïau a'u harferion arfaethedig yn debygol o'i chael ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, monitro'r cyfryw effeithiau a chyhoeddi adroddiadau ar y cyfryw asesiadau. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â'r trefniadau hynny.

Diben y polisi

- 2 Prif nod y [Polisi Addasiadau Rhesymol](#) yw helpu i sicrhau bod y sefydliad yn cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw pobl â namau yn cael eu rhoi o dan anfantais sylweddol oherwydd ein harferion. Mewn geiriau eraill, bwriad y polisi yw sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni eu dyletswyddau i wneud addasiadau rhesymol o dan adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bwriedir iddo fod o fudd i bobl â namau.
- 3 Mae'r polisi hefyd yn cydnabod bod gennym gyfrifoldebau i gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol (adran 149 o Ddeddf 2010). Mae'r ddyletswydd honno yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da. Felly, mae'n briodol ein bod yn ystyried ceisiadau a wneir gan bobl â nodwedd warchoddedig (ar wahân i anabled) i newid y ffordd rydym yn gweithio a all fod yn eu rhoi o dan anfantais.
- 4 Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru ac ar ran y sefydliad (gan gynnwys contractwyr) gydymffurfio â'r polisi wrth ddelio ag aelodau a chyflogeion cyrff archwiliedig a sefydliadau eraill, ac wrth ddelio ag aelodau'r cyhoedd.
- 5 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru bolisi arall ar gyfer materion cyflogaeth Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymwneud ag addasiadau rhesymol.

Crynodeb o'r camau a gymerwyd i gynnal yr asesiad, gan gynnwys y wybodaeth a ystyriwyd

- 6 Mae'r prif gamau a gymerwyd i gynnal yr asesiad fel a ganlyn:
- ymgysylltu ag unigolion sy'n cynrychioli buddiannau pobl â nodweddion gwarchoddedig er mwyn llywio'r camau dilynol;
 - ystyried pa mor berthnasol yw'r polisi i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a, lle y bo'n berthnasol, effaith debygol y polisi ar allu'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno;
 - ystyried effaith hysbys neu debygol y polisi ar grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig;
 - ystyried pa wybodaeth bellach y dylid ei chasglu er mwyn llywio'r asesiad o effaith a chaniatáu proses fonitro barhaus; ac
 - ystyried pa gamau neu benderfyniadau y dylid eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad gan gynnwys, yn benodol, addasu'r polisi neu roi'r gorau i'w weithredu.

Canlyniadau'r asesiad a'r penderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â'r canlyniadau

Ymgysylltu

- 7 Gwnaethom gysylltu â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac anfonwyd y polisi drafft ymlaen at bob un o'r grwpiau ffocws cynrychioliadol sy'n aelodau o'r cyngor, drwy gydgyssylltydd y Cyngor. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth na sylwadau ar y polisi drafft. Cysylltwyd â Scope Cymru hefyd, ac rydym yn ddiolchgar am eu sylwadau a gafodd eu hystyried wrth i ni fynd ati i lunio'r polisi.
- 8 Dangoswyd drafft cynnar o'r polisi i Grŵp Buddiannau Cydraddoldeb mewnol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cynrychioli buddiannau staff Swyddfa Archwilio Cymru â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Grŵp wedi cyflwyno sylwadau ac wedi cymeradwyo cynnwys y polisi.

Perthnasedd y polisi i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol

- 9 Mae'r Polisi Addasiadau Rhesymol yn ein helpu, yn benodol, i ddileu unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol y gall pobl â nam ei wynebu o ganlyniad i'r ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith; er enghraifft, gallai addasiadau gynnwys rhoi amser ychwanegol i bobl mewn cyfweiliadau er mwyn eu helpu i ddeall y cwestiynau a ofynnir iddynt.
- 10 Drwy ystyried hefyd y ddyletswydd gyffredinol i ddelio ag unrhyw geisiadau am addasiadau rhesymol a ddaw i law, dylai'r polisi hwn hefyd helpu i ddileu unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchoddedig eraill, nid dim ond y rhai â namau.
- 11 Dylai effaith bwriadedig y polisi o leihau anfantais olygu y caiff cyfle cyfartal ei hyrwyddo hefyd. Hefyd, drwy fynd i'r afael â'r anfanteision a wynebir gan bobl â namau a nodweddion gwarchoddedig eraill, dylai'r polisi helpu i sicrhau proses gyfathrebu well a chynyddu cyfranogiad mewn prosesau sy'n gysylltiedig â dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif (fel gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad), a thrwy hynny sicrhau mwy o gysylltiad a gwell dealltwriaeth. Dylai felly helpu i feithrin cydberthnasau da. Ac, yn hyn o beth, mae'r polisi'n nodi na ddylai Swyddfa Archwilio Cymru dybio bod angen gwneud addasiadau; dylai pob achos gael ei asesu'n unigol. Bydd hyn yn lleihau'r potensial i beri tramgwydd, ac yn hyrwyddo parch.

Effaith debygol

- 12 Gallai'r polisi fod yn berthnasol i unrhyw un â nodweddion gwarchoddedig, ond mae'n amlwg yn fwyaf perthnasol i bobl â nam (anabledd). Mae hefyd yn eithaf tebygol o fod yn berthnasol i bobl hŷn. Mae'r effeithiau bwriadedig yn cynnwys lleihau'r anfantais a wynebir, gan helpu i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da, fel y nodwyd uchod. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol gennym o effaith wirioneddol oherwydd, er bod rhai addasiadau anffurfiol wedi'u gwneud o bryd i'w gilydd, nid oes system ar waith eto ar gyfer nodi a monitro addasiadau a'u heffeithiau. Ni ragwelir y bydd y polisi yn cael unrhyw effaith wahaniaethol.

Gwybodaeth bellach a monitro

- 13 Mae'r polisi yn darparu ar gyfer casglu gwybodaeth am yr addasiadau y gwnaed cais amdanynt a'r ymatebion a roddwyd. Mae hefyd yn darparu ar gyfer helpu i sicrhau bod cwynion perthnasol yn cael eu nodi. Bydd y broses o gasglu a monitro'r wybodaeth hon yn helpu i sicrhau bod y polisi yn effeithiol. Dylai hefyd ein helpu i nodi camau ehangach er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gweithredu.

Camau neu benderfyniadau i'w cymryd o ganlyniad i'r asesiad

- 14 Mae'n glir y dylid rhoi'r polisi ar waith yn syth. Nid oes unrhyw angen i wneud addasiadau pellach wedi'i nodi. Mae hefyd yn glir y bydd angen i Reolwr Cydraddoldeb (neu Reolwr y Gyfraith a Moeseg) Swyddfa Archwilio Cymru fynd ati i adolygu'r wybodaeth fonitro yn flynyddol, ond efallai na fyddai'n fuddiol cynnwys y gofyniad hwn yn y polisi cyhoeddus, gan y byddai'n ei wneud yn hirach ac yn fwy anos ei ddarllen.

Martin Peters

Rheolwr Cydymffurfiaeth

23 Gorffennaf 2015